PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD MERCHER, 28 MEDI 2016

Present: Councillor (Chairperson), Councillors Elsmore, Hinchey, Margaret Jones a/ac Graham Thomas

1 : PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Hinchey fel Cadeirydd y Pwyllgor; cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd Elsmore a'i heiliwyd gan y Cynghorydd Margaret Jones.

2: AELODAETH Y PWYLLGOR

Nodwyd i'r Cyngor benodi'r Cynghorwyr Elsmore, Evans a Hinchey, Margaret Jones a Graham Thomas i'r Pwyllgor Pensiynau ar 28 Gorffennaf 2016.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Jonathan Evans.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

5 : CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR PENSIYNAU

Nodwyd i'r Cyngor gytuno ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau ar 28 Gorffennaf 2016.

6 : CRONFA FUDDSODDI CYMRU

Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr adroddiad wedi'i baratoi i roi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor am gynnydd o ran datblygu Cronfa Fuddsoddi Cymru i reoli ar sail gydweithredol asedau buddsoddi cronfeydd yr wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru ac i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) arfaethedig i lywodraethu'r Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd dros dro.

Mae'r cronfeydd yr wyth CPLIL wedi bod yn gweithio ynghyd ers ychydig flynyddoedd i nodi meysydd cydweithredu posibl, dan gyfarwyddyd Is-grŵp Pensiynau Cymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT). Yn 2013, cyhoeddwyd yr Is-grŵp adroddiad "Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru: Gweithio Gyda'n Gilydd" a nodwyd buddsoddiadau fel y maes y gallai cydweithredu arbed y mwyaf arian. Yna comisiynodd yr Is-grŵp Mercers Ltd i nodi dewisiadau ar gyfer buddsoddi cydweithredol ac ym mis Mai 2015 argymhellon nhw yn eu hadroddiad i gyhoeddi Cerbyd Buddsoddi Cyffredin (CIV). Ym mis Medi 2015, cytunodd yr wyth cronfa i barhau i sefydlu CIV ar sail wirfoddol a phenodwyd Hymans Robertson ym mis Rhagfyr 2015 i gynghori ar gaffael VIC gan ddarparwr trydydd parti.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai £13 miliwn yw gwerth Cronfa Cymru a bod yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Cymru a Thrysorlys ei Mawrhydi yn hapus i Gymru gael ei threfniadau Cronfa ei hun ar ôl cyflwyno'r drafft ym mis Chwefror.  Bu'r cyflwyniad terfynol i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf.

Yn symud ymlaen, dewiswyd rhentu lle yn hytrach nag adeiladu cronfa neu fuddsoddiadau cronni ar gyfer Cronfa Cymru.  Y cam nesaf oedd sefydlu Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd fel cyn-redwr o'r Pwyllgor Llywodraethu ar y Cyd.

Rhoddwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi prosesau arfaethedig i'r aelodau.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi cynnydd o ran datblygu'r Gronfa Fuddsoddiadau Cymru.

2. Cymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft.

3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.

Penodi'r Cynghorydd Graham Hinchey i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd a'r Cydbwyllgor ar ôl hynny.

7 : DOGFENNAU POLISI STRATEGOL AR GYFER Y GRONFA BENSIWN

Dywedwyd wrth yr aelodau fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau yn nodi cyfrifoldeb y Pwyllgor i lywodraethu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn strategol.

Argymhellodd yr adroddiad hwn fod y Pwyllgor yn cymeradwyo datganiadau polisi a adolygir bob blwyddyn neu y mae angen eu diweddaru o ganlyniad i sefydlu'r Pwyllgor.

Dywedwyd wrth yr aelodau ei bod yn ofynnol dan Reoliadau'r CPLlLi bob awdurdod gweinyddu baratoi a chynnal nifer o ddatganiadau yn nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gronfa Bensiwn:

- Datganiad Cydymffurfio – Llywodraethu (Rheoliad 55)
- Datganiad Strategaeth Cyllid (Rheoliad 58)
- Datganiad Polisi Cyfathrebu (Rheoliad 61)
- Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (Rheoliad Buddsoddi 12)

Yna gofynnodd yr aelodau gwestiynau a thrafodon nhw eitemau mewn sesiwn gyfrinachol gan na chyhoeddir Atodiad 4 yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD:

1. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Datganiad Cydymffurfio – Llywodraethu, Datganiad Polisi Cyfathrebu a'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi wedi'u hadolygu.

2. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Dyrannu Asedau Strategol fel y argymhellwyd gan y Panel Cynghori ar Fuddsoddiadau.

8 : DATGANIAD CYFRIFON AC ADRODDIADAU CYDYMFFURFIO BLYNYDDOL AR GYFER 2015-16

Dywedwyd wrth yr aelodau i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ystyried y Cyfrifon ac adroddiad yr Archwilydd yn ei gyfarfod ar 19 Medi a'i fod yn fodlon ar y sylwadau yn eu cylch.

Disgwyliwyd i'r cyfrifon terfynol gael eu dwyn gerbron y Cyngor yn y cyfarfod ar 29 Medi.

Mae'r archwiliad bellach wedi'i gwblhau ac atodir 'Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol' drafft yr Archwilydd ar gyfer y Gronfa Bensiwn fel Atodlen 1. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio anghymwys ar y datganiadau ariannol unwaith y mae wedi cael y Llythyr o Gynrychiolaeth yn Atodlen 1. Nid oedd dim camddywediadau yr oedd dal angen eu cywiro. Cyfeiriodd yr adroddiad at y prif gywiriadau a wnaed gan reolwyr.

Hefyd tynnodd sylw Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru at nifer o ganfyddiadau ansoddol fel a ganlyn:

- Nid oes unrhyw bryderon gennym ynghylch agweddau ansoddol eich ymarferion cyfrifo a'ch adrodd ariannol.
- Ni phrofon ni unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.
- Nid oedd dim materion wedi'u trafod gyda rheolwyr y mae angen i ni eu hadrodd i chi.
- Nid oes unrhyw faterion sylweddol eraill o ran drosolwg o'r broses adrodd ariannol y mae angen i ni u hadrodd i chi.
- Ni ddaethon ni o hyd i unrhyw wendidau o ran deunydd yn eich rheoliadau mewnol.
- Nid oes unrhyw faterion 'eraill' y mae angen eu cyfathrebu i'r rhai sy'n llywodraethu dan y safonau archwilio.

PENDERFYNWYD:

1. Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad yr Archwilydd.

2. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Gronfa.

9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y trefnir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau ar ddydd Mercher 26 Hydref 2016 am 5.00pm yn ystafell pwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

***This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.***